Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Cynllun Gweithlu Fferylliaeth Strategol AaGIC

## Cylchlythyr Gwanwyn/Haf 2024



## Cynnwys


Croeso ........ 1
Cynnydd hyd yma ........ 2
Newyddion Da ........ 11
Blaenoriaethau Hydref 2024 a'r Camau Nesaf ........ 13
Bwrdd Bwletin ........ 13
Cysylltwch! ........ 13




# Croeso

Mae wedi bod yn flwyddyn ers lansio ein Cynllun Gweithlu Fferylliaeth Strategol (SPWP) ym mis Mehefin 2023.

Ble mae'r flwyddyn honno wedi mynd a beth sydd wedi'i gyflawni?

Rwy'n falch iawn o ddweud, ers diwedd mis Mawrth 2024, fod gennym bellach dîm SPWP AaGIC sydd wedi'i recriwtio'n llawn, sydd wedi dechrau bwrw ymlaen â chamau gweithredu'r cynllun gweithlu. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, byddem wedi hoffi gwneud cynnydd pellach gyda llawer o gamau gweithredu'r cynllun, ond mae ffactorau mewnol ac allanol wedi dylanwadu ac effeithio ar gyflymder y gweithredu.

Nid yw hynny'n golygu nad oes dim wedi digwydd!! Yn wir, mae llawer wedi digwydd, a bydd y cylchlythyr hwn yn dangos i chi faint sydd wedi symud ymlaen yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

Mae tîm AaGIC bellach yn barod ac yn awyddus i ymgysylltu â'n holl bartneriaid dros y deuddeg mis nesaf i gyflawni uchelgeisiau'r cynllun.

Gallwch ddarllen y Cynllun Gweithlu Fferylliaeth Strategol llawn yma:
aagic.gig.cymru/files/strategic-workforce-plan

Gallwch weld crynodeb o'r 31 Cam Gweithredu yma:
aagic.gig.cymru/files/pharmacy-aims-cymru

Dilynwch ein cynnydd trwy wefan AaGIC yma:
Cynllun Gweithlu Fferylliaeth Strategol - AaGIC (nhs.wales)

facebook.com/AaGIC.GIG

linkedin.com/company/nhs-heiw

Yr Athro Margaret Allan, BPharm (Anrh) FRPS,
Deon Fferyllol



# Cynnydd hyd yma

| Themâu | Diweddariadau o’r Camau Gweithredu |
|---|---|
| Thema 1 – Gweithlu Ymgysylltiol, Cymhellol ac Iach | Cam Gweithredu 2 |
| Thema 2 – Denu a Recriwtio | Camau Gweithredu 7, 8 a 9 |
| Thema 3 – Gweithlu Di-dor | Camau Gweithredu 10, 11 a 12 |
| Thema 4 – Adeiladu Gweithlu sy’n Barod yn Ddigidol | Cam Gweithredu 14 |
| Thema 5 – Addysg a Dysgu Rhagorol | Camau Gweithredu 16, 18, 19, 20, 22 a 23 |
| Thema 6 - Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Olyniaeth | Camau gweithredu 24, 25 a 26 |
| Thema 7 – Cyflenwad a Siâp y Gweithlu | Cam gweithredu 29 |



## Diweddariadau ar Thema 1
## Gweithlu Ymgysylltiol, Cymhellol ac Iach

### Cam Gweithredu 2

Datblygu canllawiau cynllunio swyddi fferylliaeth a phecyn cymorth sy'n dod â'r cydbwysedd cywir o ran darparu gwasanaethau, eich datblygiad personol eich hun ac eraill, arweinyddiaeth, ymchwil ac arloesedd pan gaiff ei roi ar waith gan gyflogwyr.

### Diweddariad

Mae tîm SPWP wedi penderfynu bod camau gweithredu 2, 9 a 29 yn gorgyffwrdd yn sylweddol ac felly wedi'u cyfuno'n un 'Prosiect Cymorth Cynllunio'r Gweithlu'.

Bydd AaGIC yn:

- parhau i ddatblygu hyb ar-lein ar gyfer Cynllunio Gweithlu Fferylliaeth Gweithredol. Disgwylir iddo fod ar gael erbyn Rhagfyr 2024.
- darparu pecyn cymorth i gefnogi partneriaid i fapio disgrifiadau swydd i fframweithiau datblygu gyrfa yn ymarferol, o fewn eu gweithgareddau cynllunio lleol.

Mae'r gweithgaredd yn unol â chynllun gwaith Grŵp Cyfoedion Cyfarwyddwr Fferylliaeth fel bod allbynnau'n cyfrannu at gyflawni'r. Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Fferylliaeth Clinigol yn Ysbytai GIG Cymru - Ymateb Llywodraeth Cymru

Byddwn hefyd yn rhannu'r hyn a ddysgwyd o un rhan o'r system (GIG) i'r llall (contractwyr y GIG).

## Diweddariadau Thema 2
## Atynnu a Recriwtio

### Cam Gweithredu 7

Datblygu atebion pwrpasol i wella atyniad a recriwtio i rolau fferylliaeth mewn ardaloedd lle mae gwledigrwydd yn her benodol

### Diweddariad:

Mae yna ddaearyddiaethau 'anodd eu recriwtio' yng Nghymru a allai fod angen hyblygrwydd, neu ddulliau newydd, i ddenu a chadw staff fferyllol.

Prif ffocws y cam gweithredu hwn fu gweithio gyda phartneriaid mewn ardaloedd gwledig, i ddeall yr heriau a'r atebion ym mhob sector. Clywsom gan 25 o gyfranwyr drwy gyfres o weithdai anghysbell ym mis Mai a mis Mehefin eleni. Roedd y themâu cyffredin a ddaeth i'r amlwg yn ymwneud â mynediad a thrafnidiaeth, ynysu, hyfforddiant hyblyg a chyfleoedd dilyniant gyrfa.

Bydd crynodeb llawn o'r gweithgaredd ymgysylltu ynghylch heriau ac atebion yn cael ei ddosbarthu ar gyfer adborth erbyn diwedd mis Hydref. Bydd fersiwn gymeradwy ar gael i'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid erbyn Rhagfyr 2024 fan bellaf.

**Cam Gweithredu 8**
Datblygu llwybrau gyrfa Ymchwilydd Clinigol ac Academaidd Clinigol ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol gyda mynediad teg at gyfleoedd hyfforddi a chyllido

**Diweddariad:**
Mae AaGIC yn bartner gweithredol yn Ymchwil Fferylliaeth Cymru. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i gyfeirio mynediad at gyllid ymchwil ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol ac i ddatblygu llwybrau gyrfa ymchwil. Drwy'r grŵp hwn, mae GIG Cymru wedi'i gysylltu â gwaith arall ledled y DU i ddatblygu Llwybrau Gyrfa Academaidd Clinigol.

**Cam Gweithredu 9**
Er mwyn cefnogi gweithrediad cyson fframweithiau datblygu gyrfa ar draws holl feysydd gwasanaethau'r GIG, mae'r holl ddisgrifiadau swydd ar gyfer rolau fferyllol wedi'u mapio i sgiliau a chymwyseddau fframweithiau gyrfa fferylliaeth cenedlaethol cydnabyddedig (e.e., Cymdeithas Fferyllol Frenhinol)

**Diweddariad:**
Mae tîm SPWP wedi penderfynu bod camau gweithredu 2, 9 a 29 yn gorgyffwrdd yn sylweddol ac felly wedi'u cyfuno'n un 'Prosiect Cymorth Cynllunio'r Gweithlu'.

Bydd AaGIC yn:
- parhau i ddatblygu hyb ar-lein ar gyfer Cynllunio Gweithlu Fferylliaeth Gweithredol. Disgwylir iddo fod ar gael erbyn Rhagfyr 2024.
- darparu pecyn cymorth i gefnogi partneriaid i fapio disgrifiadau swydd i fframweithiau datblygu gyrfa yn ymarferol, o fewn eu gweithgareddau cynllunio lleol.

Mae'r gweithgaredd yn unol â chynllun gwaith Grŵp Cyfoedion Cyfarwyddwr Fferylliaeth fel bod allbynnau'n cyfrannu at gyflawni'r. Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Fferylliaeth Clinigol yn Ysbytai GIG Cymru - Ymateb Llywodraeth Cymru

Byddwn hefyd yn rhannu'r hyn a ddysgwyd o un rhan o'r system (GIG) i'r llall (contractwyr y GIG).



## Diweddariadau Thema 3
## Modelau Gweithlu Di-dor

### Gweithred 10
Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r newid yn rolau fferylliaeth mewn gofal iechyd

### Cam Gweithredu 11
Fel sylfaen i gydweithio fwyfwy â'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol a gwella'r ddealltwriaeth o'r modd y mae rolau fferyllol yn esblygu ac yn trawsffurfio.

### Diweddariad:
Mae cam gweithredu 10 ac 11 yn canolbwyntio ar wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r rolau newidiol mewn fferylliaeth. Mae hyn yn cynnwys y newid yn 2026, pan fydd fferyllwyr dan hyfforddiant sydd yn llwyddiannus yn ymuno â chofrestr y Cyngor Fferyllol Cyffredinol fel rhagnodwyr annibynnol.

Mae Cam Gweithredu 10 yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth y cyhoedd. Rydym yn y broses o greu adnodd gwybodaeth allweddol y bwriedir ei ddefnyddio ar gyfer pob datblygiad dilynol o negeseuon cyhoeddus ar rolau fferylliaeth.

Mae asesiad o ymgyrchoedd wyneb y cyhoedd cyfredol ar y gweill.  Bydd hyn yn penderfynu a yw ymgyrch gyhoeddusrwydd newydd, sy'n benodol i fferylliaeth yn briodol, neu a ellir defnyddio ymgyrchoedd presennol i godi ymwybyddiaeth. Rydym hefyd wedi dechrau cydweithio â chynllun y Gweithlu Gofal Sylfaenol, lle mae ymgyrchoedd negeseuon cyhoeddus tebyg yn cael eu hystyried.

Mae Cam Gweithredu 11 yn edrych ar gyfathrebu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill, ynghylch newid rolau fferylliaeth, a sut y gellir darparu gwasanaethau.

Rydym wedi dechrau mapio'r cyswllt sydd gan dimau fferylliaeth â phroffesiynau eraill, a sut y gallai cyflwyno fferyllwyr rhagnodi annibynnol ar adeg cofrestru ym mis Awst 2026 effeithio ar hyn. Bydd adnodd gwybodaeth pellach yn gwella dealltwriaeth o'r newidiadau i'r proffesiwn fferylliaeth sy'n effeithio ar broffesiynau eraill.

### Cam Gweithredu 12
Cytuno ar Strategaeth Fferyllwyr Ymgynghorol Cymru a'i gweithredu.

### Diweddariad:
Rydym wedi datblygu e-adnodd ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn datblygu rolau fferyllwyr ymgynghorol. Cwblhawyd profion derbynioldeb defnyddwyr ym mis Awst gyda'r adnodd byw yn derbyn diweddariadau. Gallwch gael mynediad at y fersiwn gyfredol yma: Gwella Gwasanaethau: Sefyllfa Fferyllwyr Ymgynghorol.

Gall fferyllwyr sy'n meddwl am eu taith eu hunain i ennill cymwysterau fferyllydd ymgynghorol weld fideos o rwydwaith Cymru o fferyllwyr â chymwysterau ar Y Tŷ Dysgu. Mae'r rhwydwaith yn casglu 'mynegiant o ddiddordeb' gan y rhai sydd am fod yn rhan o rwydwaith hunangynhaliol ar gyfer y cymhwyster hwn gan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol.

nhswalesytydysgu.heiw.wales/learning-and-networks/pharmacy/heiw-pharmacy-training-programmes/consultant-pharmacy-practice

Gellir darparu unrhyw adborth ar y gwaith hwn drwy HEIW.pharmacyworkforce@wales.nhs.uk

## Diweddariadau ar Thema 4
## Adeiladu Gweithlu sy'n Ddigidol Barod

### Cam Gweithredu14
Datblygu sgiliau, cymwyseddau ac ymddygiadau digidol generig yn gyson ymhlith y gweithlu fferyllol, yn ôl Fframwaith Gallu Digidol AaGIC.

### Diweddariad:
Mae modiwl y Fframwaith Gallu Digidol (FfCD) ar Y Tŷ Dysgu wedi cael ei ddiweddaru i gynnig cyflwyniad ffres, symlach, rhyngweithiol i'r offeryn hunanwerthuso. Mae'n cynnig yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar ddefnyddwyr i gael y gorau o'r fframwaith, a dechrau ar eu taith datblygu gallu digidol.

Mae'r niferoedd yn parhau i gynyddu wrth i fwy o staff fferyllol ymgysylltu â'r fframwaith gallu digidol.

Mae gan holl ddefnyddwyr Y Tŷ Dysgu fynediad i'r Fframwaith wrth gofrestru. Gellir cyrchu'r modiwl yma.

### Mewngofnodi Sengl Ar Gyfer Staff GIG Cymru
Mae pob defnyddiwr sy'n cofrestru gyda chyfeiriad e-bost GIG Cymru bellach yn cael y fantais o gael mynediad i'r system mewn un clic, gan ddefnyddio'r swyddogaeth mewngofnodi sengl newydd. Ni fydd angen i ddefnyddwyr gofio manylion mewngofnodi lluosog mwyach er mwyn elwa ar y datblygiad sydd ar gael yn Y Tŷ Dysgu.

Mae cofrestru'n syml a gellir ei gyrchu drwy'r ddolen hon:
ytydysgu.heiw.wales/signup

Gellir dod o hyd i ganllawiau cam wrth gam ar ein tudalen lanio sy'n hygyrch i'r cyhoedd: Sut i Gofrestru.

### Ymgorffori'r Fframwaith Gallu Digidol Mewn Arfarnu Ac Ymsefydlu
Mae'r fframwaith yn gyfle i staff ddatblygu eu gallu digidol. Trwy ymgorffori'r hunanwerthusiad mewn arfarnu a chyfnodau ymsefydlu, gall staff ddangos lefelau eu gallu digidol a nodi amcanion ar gyfer y 12 mis nesaf.

Gall rheolwyr llinell ac arweinwyr gynnig y Fframwaith fel arf ar gyfer datblygu a cham gweithredu mesuradwy.

Os oes gennych ddiddordeb mewn treialu'r Fframwaith fel rhan o'ch gwerthusiad/PADR, cysylltwch ag Ellen Edwards, Arweinydd Ymchwil ac Ymgysylltu Trawsnewid Digidol, ellen.edwards3@wales.nhs.uk i drafod.



## Diweddariadau ar Thema 5
## Addysg a Dysgu Rhagorol

### Cam Gweithredu 16
Ehangu mynediad i dechnolegau ymgolli ar gyfer y gweithlu fferylliaeth yn ystod eu haddysg a'u datblygiad gofal iechyd yng Nghymru

### Diweddariad
Ar ôl sicrhau adnodd secondiad ychwanegol i ddechrau gweithio ar y cam gweithredu hwn ym mis Awst 2024, disgwylir adroddiad drafft ac argymhellion ganol blwyddyn yn 2025.  Byddwn yn adolygu sut mae technoleg ymgolli yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd mewn rhaglenni addysg a hyfforddiant. Rydym yn archwilio'r mathau o dechnolegau sydd ar gael, a sut a ble y gellid eu cynnwys mewn cwricwla i ddod â buddion a gwella canlyniadau hyfforddiant.

### Cam Gweithredu 18
Archwilio'r cyfleustra ar gyfer cyfleoedd hyfforddiant aml-sector ar gyfer technegwyr fferyllol cyn-gofrestru.

### Diweddariad
Mae AaGIC yn traddodi rhaglen hyfforddiant Technegwyr Fferyllol Cyn-gofrestru drwy gyfrwng Fframwaith Prentisiaeth Fodern a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ofynnol i dechnegwyr fferyllol cyn-gofrestru (PRPT) arfer eu gwybodaeth a'u cymhwysedd mewn 'lleoliad fferyllol'.

Yn hanesyddol, mae AaGIC wedi cefnogi modelau hyfforddi aml-sector sydd wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion penodol byrddau iechyd amrywiol. Er enghraifft, roedd model a roddwyd ar waith mewn bwrdd iechyd penodol yn galluogi hyfforddeion i ennill profiad mewn ysbyty, gweithio gyda thîm "Eich Meddyginiaethau yn y Cartref" a threulio amser mewn fferyllfeydd cymunedol. Mae'r dull pwrpasol hwn yn sicrhau bod hyfforddeion yn dod i gysylltiad â meysydd ymarfer amrywiol, gan wella eu dealltwriaeth, eu sgiliau a thaith y claf.

Mae adborth gan yr hyfforddeion hyn wedi bod yn hynod gadarnhaol. Mae profiadau aml-sector nid yn unig yn darparu profiad addysgol cyfoethocach ond hefyd yn meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r dirwedd fferylliaeth, o ofal sylfaenol i leoliadau fferylliaeth gymunedol. Mae hyfforddeion wedi adrodd bod yr amlygiad hwn yn eu helpu i adeiladu rhwydwaith proffesiynol cadarn a gwell gwerthfawrogiad o'r rolau o fewn gwahanol sectorau. Mae Technegwyr Fferylliaeth Cyn Cofrestru ar hyn o bryd yn ymwneud ag amrywiaeth o fodelau hyfforddi deinamig sy'n cwmpasu dod i gysylltiad â gwahanol sectorau ymarfer o fewn yr un bwrdd iechyd.

### Enghreifftiau o brofiadau lluosog
Mae AaGIC yn archwilio cyfleoedd newydd yn barhaus i ehangu a mireinio'r modelau hyfforddi hyn. Mae model ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP) yn cynnwys cydweithio â fferyllfeydd cymunedol i ddarparu cyfleoedd hyfforddi er gwaethaf heriau unigryw'r rhanbarth, megis cyfle i gyflawni gofynion y rhaglen hyfforddi o fewn amgylchedd yr ysbyty. Mae'r fenter hon wedi bod yn llwyddiannus oherwydd ymgysylltiad cryf a chefnogaeth ar y cyd rhwng y bwrdd iechyd a fferyllfeydd cymunedol.

Yn ogystal, mae byrddau iechyd fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPBC) a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr (BIPBC) wedi gweithredu cylchdroadau meysydd ymarfer un sector. Mae hyfforddeion yn treulio rhan o'u hwythnos mewn practisau meddygon teulu a'r gweddill mewn ysbytai, y ddau yn cael eu rheoli gan y bwrdd iechyd.

Mae'r integreiddio hwn yn galluogi hyfforddeion i ddod â mewnwelediadau gwerthfawr o un maes ymarfer i'r llall, gan gyfoethogi eu profiad hyfforddi cyffredinol. Bydd modelau darparu'r dyfodol ar gyfer sector a reolir yn ei gwneud yn ofynnol i PRPTs ddod i gysylltiad ag o leiaf ddau faes o ymarfer fferylliaeth drwy gydol eu rhaglen hyfforddi.

## Manteision Profiadau Aml-Sector

Mae profiadau hyfforddi aml-sector yn cynnig nifer o fanteision allweddol:

**Gofal Cleifion Cynhwysfawr:** Mae hyfforddeion yn dilyn taith y claf ar draws gwahanol leoliadau gofal, gan feithrin dealltwriaeth gyfannol o ofal cleifion.

**Rhwydweithio Proffesiynol:** Adeiladu rhwydwaith o fewn y gwahanol sectorau, sy'n amhrisiadwy ar gyfer cyfleoedd gyrfa yn y dyfodol.

**Cydweithio Rhyngddisgyblaethol:** Mae bod yn agored i sectorau amrywiol yn hybu cydweithio, wrth i hyfforddeion ddeall rolau a heriau gwahanol leoliadau gofal iechyd.

**Hyblygrwydd ac Addasu:** Gall pob bwrdd iechyd deilwra'r model hyfforddi i ddiwallu ei anghenion a'i adnoddau penodol.

Wrth i AaGIC barhau i arloesi ac addasu ei fodelau hyfforddi, mae'r nod yn parhau'n glir: arfogi technegwyr fferyllol â'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i ragori mewn amgylchedd gofal iechyd sy'n datblygu'n gyflym. Mae'r ymrwymiad i brofiadau aml-sector nid yn unig yn gwella profiad addysgol ein hyfforddeion ond hefyd yn y pen draw yn gwella gofal cleifion a chanlyniadau iechyd ledled Cymru.

Os hoffech ragor o wybodaeth am y rhaglen Technegydd Fferylliaeth Cyn-Cofrestru (PRPT) ewch i'r ddolen isod:
Rhaglen Technegydd Fferylliaeth Cyn Cofrestru (PRPT) - Porth YTD AaGIC

Neu e-bostiwch: HEIW.Prptprogramme@wales.nhs.uk

## Cam Gweithredu 19

Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynigion ar gyfer cynnwys genomeg a chynhyrchion meddyginiaethau therapi uwch o fewn addysg a hyfforddiant y gweithlu

## Diweddariad

Mae AaGIC yn datblygu Cynllun Gweithlu Strategol ar gyfer Genomeg mewn partneriaeth â Phartneriaeth Genomeg Cymru.

Mae'r Tîm Genomeg wrthi'n ymgynghori ac yn gweithio tuag at gwblhau'r cynllun i'w gyhoeddi yn ystod hydref 2024.

Mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu mewn ymateb i un o nodau allweddol Cynllun Cyflawni Genomig Cymru.

heiw.nhs.wales/workforce/strategic-workforce-plan-for-genomeg

Bydd genomeg yn chwarae rhan arwyddocaol wrth ddarparu gofal iechyd yn y dyfodol. Bydd yn ein helpu i ddeall mwy am salwch a chlefydau ac yn ein galluogi i ddatblygu ymagweddau wedi'u targedu at driniaeth a gofal cleifion.

Y prif yrwyr ar gyfer datblygu'r cynllun yw:

- Sicrhau bod gan GIG Cymru weithlu genomeg arbenigol cadarn a'r seilwaith cywir ar waith i ymateb i'r gofynion a nodir yn y rhaglenni cyflawni genomig cenedlaethol (DU) a Chymru
- Rhoi digon o 'llythrennedd genomig' i weithlu ehangach GIG Cymru i sicrhau bod genomeg yn gallu cael ei brif ffrydio'n effeithiol i gyflenwi gwasanaethau.

Hyd yn hyn, mae 19 o staff fferylliaeth wedi cwblhau modiwlau hyfforddiant genomig ac mae 91 wedi cofrestru, ac angen cwblhau. Gallwch hefyd gael mynediad i dudalen genomeg AaGIC i gael gwybodaeth am sut i ddechrau gyda genomeg a chyfeirio at adnoddau addysg. Genomeg - AaGIC (nhs.wales)

**Cam Gweithredu 20**
O 2026, bydd yr holl fferyllwyr cofrestredig newydd yng Nghymru yn cael eu cefnogi i ddilyn fframwaith lefel Sylfaen, Uwch ac Ymgynghorol y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol.

**Diweddariad**
Fel rhan o fusnes craidd, mae AaGIC wedi sefydlu Grŵp Llywio Ôl-gofrestru i arwain datblygiad fferyllwyr o lefel newydd gymhwyso i lefel ymgynghorol. Mae cynrychiolaeth o bob sector a lefel ymarfer ar y grŵp.

Un o'r gweithgareddau cyntaf fu sefydlu gweithgor bach. Ei gylch gwaith yw datblygu argymhellion ar sut y dylid cefnogi rhagnodwyr annibynnol newydd o fis Awst 2026, a rhagnodwyr annibynnol dibrofiad presennol. Rydym yn parhau i adrodd ar gynnydd drwy'r cylchlythyr hwn.

**Cam Gweithredu 22**
Cynyddu nifer y Goruchwylwyr Dynodedig, tiwtoriaid a mentoriaid ar bob cam o fframweithiau gyrfa fferylliaeth

**Diweddariad**
Mae nifer y goruchwylwyr dynodedig, y tiwtoriaid a'r mentoriaid eisoes wedi cynyddu, ers lansio'r Cynllun Gweithlu Strategol. Rydym wedi cadarnhau bod y gofynion ar gyfer goruchwylwyr, tiwtoriaid a mentoriaid dynodedig yn bodloni'r galw presennol ar gyfer holl raglenni addysg a hyfforddiant fferyllol AaGIC.

Mae gwaith pellach ar y gweill i weld a fyddai unrhyw gynnydd posibl yn niferoedd hyfforddiant dros y 3 blynedd nesaf yn cael ei effeithio ar argaeledd y rolau cefnogi hyn. Ein nod yw cwblhau'r gwaith hwn erbyn diwedd Rhagfyr 2024.

**Cam Gweithredu 23**
Ehangu cyfleoedd hyfforddiant aml-broffesiynol i weithwyr fferyllol proffesiynol.

**Diweddariad**
Mae gwaith cwmpasu ar y gweill i ganfod faint o hyfforddiant rhyngbroffesiynol sydd ar waith ar hyn o bryd ar draws rhaglenni hyfforddi cenedlaethol fferylliaeth yng Nghymru. Disgwyliwn dynnu sylw at feysydd blaenoriaeth a chyfleoedd ar gyfer gweithgarwch datblygu rhyngbroffesiynol yn ein hadroddiad.



## Diweddariadau Thema 6
## Arweinyddiaeth ac Olyniaeth

### Cam Gweithredu 24
Sefydlu llwybrau mynediad wedi'u teilwra ar gyfer pob grŵp staff fferyllol i ymgysylltu â'r adnoddau a'r adnoddau arwain tosturiol a chyfunol sydd ar gael ar Gwella

### Cam Gweithredu 25
Datblygu a darparu atebion arweinyddiaeth glinigol a phroffesiynol sy'n cyd-fynd â Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n adlewyrchu gofynion y gweithlu fferyllol.

### Cam Gweithredu 26
Darparu a datblygu atebion arweinyddiaeth broffesiynol sy'n cyd-fynd â'r strategaeth arweinyddiaeth ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru ac sy'n adlewyrchu gofynion y gweithlu fferyllol

### Diweddariad
Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran datblygu llwybr fferylliaeth pwrpasol o fewn Porth Arweinyddiaeth Gwella AaGIC. Mae Tîm Arwain AaGIC yn gwneud paratoadau terfynol i lansio'r adnodd newydd hwn erbyn diwedd mis Hydref eleni.

I gyd-fynd â'r lansiad hwn byddwn hefyd yn gwerthuso'r hyfforddiant arweinyddiaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i weithwyr fferyllol proffesiynol. Ochr yn ochr â rhaglenni Arweinyddiaeth presennol, mae AaGIC hefyd yn ariannu hyd at 3 fferyllydd ym mhob carfan i gwblhau rhaglen datblygu Prif Fferyllwyr y Dyfodol Lloegr. Bydd gwerthusiad i weld a yw'r rhaglen hon yn bodloni anghenion gweithlu Cymru yn cael ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2024 gydag adroddiad yn argymell unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau sydd eu hangen.

## Diweddariadau Thema 7
## Cyflenwad a Siâp y Gweithlu

### Cam Gweithredu 29
Datblygu sgiliau cynllunio'r gweithlu ymhlith gweithwyr fferyllol proffesiynol ym mhob bwrdd iechyd a phob sector ac ar draws gwahanol arbenigeddau clinigol.

### Diweddariad
Mae tîm CPCP wedi sefydlu bod camau gweithredu 2, 9 a 29 yn gorgyffwrdd yn sylweddol ac felly wedi'u cyfuno'n un 'Prosiect Cymorth Cynllunio'r Gweithlu'.

Bydd AaGIC yn:
- parhau i ddatblygu hyb ar-lein ar gyfer Cynllunio Gweithlu Fferylliaeth Gweithredol. Disgwylir iddo fod ar gael erbyn Rhagfyr 2024.
- darparu pecyn cymorth i gefnogi partneriaid i fapio disgrifiadau swydd i fframweithiau datblygu gyrfa yn ymarferol, o fewn eu gweithgareddau cynllunio lleol.

Mae'r gweithgaredd yn unol â chynllun gwaith Grŵp Cyfoedion Cyfarwyddwr Fferylliaeth fel bod allbynnau'n cyfrannu at gyflawni'r Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Fferylliaeth Clinigol yn Ysbytai GIG Cymru - Ymateb Llywodraeth Cymru

Byddwn hefyd yn rhannu'r hyn a ddysgwyd o un rhan o'r system (GIG) i'r llall (contractwyr y GIG).

# Newyddion Da

## Llwybr Gyrfa Newydd!

Mae’n bleser gan y tîm Technegwyr Fferylliaeth adrodd bod y Rhaglen ‘Mynediad at’ ar gyfer staff cymorth fferyllol, a ddechreuwyd y llynedd, wedi agor llwybr datblygu gyrfa newydd i gofrestru technegwyr fferyllol.

Mae unigolion sydd â dyheadau i fod yn dechnegwyr fferyllol, ond nad oes ganddynt y cymwysterau TGAU gofynnol, yn gallu llenwi unrhyw fylchau. Gall unigolion ymgymryd â chyfres bwrpasol o 1 i 4 cymhwyster, tra byddant yn gweithio ac yn cael eu cefnogi gan AaGIC a’n partneriaid Coleg Addysg Bellach.

Y cymwysterau sydd ar gael yw Cymhwyso Rhif Lefel 2 Sgiliau Hanfodol Cymru (cyfwerth â TGAU Mathemateg), Llythrennedd Digidol, Cyfathrebu (cyfwerth â TGAU Saesneg Iaith), a BTEC / TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol, trwy fodelau cyflwyno cyfunol.

Mae’r Rhaglen ‘Mynediad i’ yn ffordd dda i unigolion, sydd efallai wedi bod allan o addysg ers peth amser, ail-gydio mewn dysgu a magu hyder.

Daeth dau unigolyn a gwblhaodd gymwysterau (o gefndiroedd fferylliaeth gymunedol ac ymarfer cyffredinol) yn gymwys i wneud cais, a sicrhawyd lleoedd ar raglen hyfforddi Technegydd Fferylliaeth Cyn-gofrestru AaGIC a ddechreuodd ym mis Medi 2024. Roedd eraill ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliadau Bwrdd Iechyd lle nad oeddent yn gymwys i wneud cais yn flaenorol. Yn dilyn cofrestru mae cyfleoedd swyddi technegydd fferyllol amrywiol a chyffrous ym mhob sector.

## Technoleg Ymgolli / 'Pharma-SEE!'

O ystyried yr heriau presennol yn y GIG, mae'n anodd cynnig profiad gwaith personol. **Nod 'Pharma-SEE!'** yw cysylltu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol â phlant ysgol uwchradd, gan leihau'r angen am brofiadau personol.

Mae’r rhaglen anghlinigol hon yn bennaf yn caniatáu i blant archwilio fferyllfa gymunedol a dysgu am hunanofal sylfaenol trwy ryngweithio â’r tîm fferylliaeth. Gydag amrywiol elfennau rhyngweithiol, gall yr adnodd hwn helpu i ennyn diddordeb myfyrwyr sydd â diddordeb mewn gyrfaoedd cysylltiedig â gwyddoniaeth.




Ers mis Medi 2023, mae ein Cymrawd Clinigol, Geraint Jones, wedi bod yn creu 'Pharma-SEE!' - adnodd rhith-realiti blant 13 – 18 oed i godi ymwybyddiaeth o’r proffesiwn fferylliaeth.

Mae defnyddio 360-fideo a rhith-realiti (VR), 'Pharma-SEE!' yn galluogi 'profiad gwaith rhithwir', gan obeithio ysbrydoli plant,  i fod eisiau bod yn rhan o'r proffesiwn heb fod angen iddynt gael mynediad i leoliad gofal iechyd. Mae'r prosiect hwn yn cyd-fynd â Cham Gweithredu 16 yng 'Nghynllun Gweithlu Fferylliaeth Strategol' AaGIC.

Bydd 'Pharma-SEE!' yn gweithio ar unrhyw ddyfais, fel cyfrifiaduron personol, ffonau symudol, tabledi a chlustffonau VR. Mae wedi'i gynllunio i ysbrydoli plant o bob rhan o Gymru, waeth beth fo'u cefndir. Bydd y prosiect yn ychwanegu at gasgliad AaGIC o offer efelychu, gan ddefnyddio technoleg fodern i gysylltu â phobl ifanc. 'Pharma-SEE!' Gellir ei ddefnyddio mewn ysgolion ac mewn digwyddiadau gyrfa i gyrraedd mwy o fyfyrwyr a chynnig ffordd newydd i ddarparwyr gofal iechyd gysylltu â'r genhedlaeth iau.

Lansiwyd Pharma-SEE!'  ym mis Gorffennaf 2024 a bydd ar gael drwy blatfform 'Tregyrfa' AaGIC a'r Meta App Store. Cafodd ei arddangos am y tro cyntaf yn Sioe Frenhinol Cymru ym mis Awst lle cafodd adborth cadarnhaol a llawer o ddiddordeb! Bydd hefyd yn cael ei arddangos yng Nghynhadledd Flynyddol Gymreig y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol ym mis Medi.

Rhoddwyd 'Pharma-SEE!' ar restr fer Gwobr 'Lledaenu a Graddio' Cymru yng Nghynhadledd a Gwobrau Cynaliadwyedd GIG Cymru 2024, gan gydnabod ei botensial ar gyfer defnydd eang ledled Cymru. Derbyniodd ganmoliaeth hefyd gan Gymdeithas Canolbarth Affrica y Gymdeithas Systemau Gwybodaeth (CACAIS) am ei defnydd arloesol o dechnolegau newydd i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol a'i hymdrechion cynnar i ddenu pobl ifanc i yrfaoedd fferyllol yng Nghymru.

Mae Geraint wedi llenwi swydd wag yn nhîm Cynllun Gweithlu Fferylliaeth Strategol. Mae'n gweithio ar gamau gweithredu sy'n ymwneud â gyrfaoedd a thechnolegau ymgolli, sy'n cysylltu â'i ymchwil barhaus ei hun yn y meysydd hyn.






# Blaenoriaethau Hydref 2024 a'r Camau Nesaf

- Camau Gweithredu  2, 9 a 29 – Prosiect Cymorth Cynllunio'r Gweithlu
- Cam Gweithredu 5
- Cam Gweithredu 6
- Cam Gweithredu 16
- Cam Gweithredu 17
- Camau gweithredu 24, 25 a 26

# Bwrdd Bwletin

Mae Llygad ar y Gorwel yn fwletin newydd bob chwe wythnos gan Dîm Cynllunio Gweithlu Strategol AaGIC. Efallai y bydd o ddiddordeb i ddarllenwyr y cylchlythyr hwn. Mae'r bwletin wedi'i gynllunio ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â chynllunio'r gweithlu neu wasanaethau, neu'r rhai sydd â diddordeb mewn materion, heriau, cyfleoedd a thueddiadau'r gweithlu yn ehangach. Mae'n rhoi trosolwg byr o ffocws gwaith presennol y Tîm Cynllunio Gweithlu Strategol, gan gynnwys dolenni i gyhoeddiadau newydd, adnoddau a chyfleoedd hyfforddi, yn ogystal â manylion ein digwyddiadau yn y dyfodol sy'n cynnwys ein cynhadledd flynyddol, sesiynau galw heibio, gweithdai a dosbarthiadau meistr.

Os hoffech danysgrifio, e-bostiwch: heiw.workforceplanning@wales.nhs.uk




# Cysylltwch!

Mae croeso i chi gysylltu â ni os yw eich gwaith yn cefnogi'r cynllun gweithlu fferylliaeth strategol ac yr hoffech rannu unrhyw wybodaeth am y gwaith yr ydych yn ei wneud. Rydym yn gwerthfawrogi eich amser a'ch cyfranogiad yn yr ymdrechion parhaus i ddylanwadu ar ddyfodol y gweithlu fferylliaeth yng Nghymru, a diolchwn ichi am roi o'ch amser i ddarllen y cylchlythyr hwn.

Ffurflen adborth

Os hoffech chi gysylltu, e-bostiwch: HEIW.pharmacyworkforce@wales.nhs.uk

**Dilynwch ni:**

- aagic.gig.cymru
- facebook.com/AAGIC.GIG
- linkedin.com/company/nhs-heiw